| | | |
|---|---|---|
| Fy nghyf:<br>My Ref: | Eich Cyf:<br>Your Ref: | Dyddiad:<br>Date: 15 Chwefror 2023 |

Annwyl Riant/Gwarcheidwad

Fel y gwyddoch chi, mae’r Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) wedi cyhoeddi tridiau pellach o gamau gweithredu diwydiannol arfaethedig. Dyma ddyddiadau'r camau gweithredu diwydiannol arfaethedig:

Dydd Iau 2 Mawrth 2023
Dydd Mercher 15 Mawrth 2023
Dydd Iau 16 Mawrth 2023

Bydd ysgol eich plentyn yn penderfynu a fydd yr ysgol yn parhau i fod ar agor ar y dyddiadau hyn, a hynny'n seiliedig ar asesiadau risg a chyd-destun unigol yr ysgol.

Bydd ysgol eich plentyn yn bwriadu rhoi gwybod p'un a fydd yr ysgol ar agor ai peidio o leiaf tri diwrnod gwaith cyn pob un o'r dyddiadau yma.

**Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim**

Os bydd ysgolion yn gwneud penderfyniad i gau cyn diwrnod y camau gweithredu diwydiannol sydd wedi'i gynllunio, dim ond disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fydd yn cael pecyn bwyd, os oes angen. Bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi yn fuan i nodi anghenion eich plentyn. Mae modd casglu pecynnau bwyd wedi'u harchebu ymlaen llaw ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ysgol eich plentyn rhwng 11.00am a 12.00pm ar ddiwrnod y camau gweithredu diwydiannol arfaethedig. Fydd y Cyngor **ddim** yn darparu pecynnau bwyd i ddisgyblion yn nosbarthiadau meithrin, derbyn a blwyddyn 1 sydd â hawl i gael pryd ysgol am ddim o dan y cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

**Tŷ Trevithick**
Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ
Abercynon, Mountain Ash, CF45 4UQ

Ffôn/Tel: 01443 744000
Ffacs/Fax: 01443 744024

**Gaynor Davies**
**Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant | Director of Education and Inclusion Services**

**Dewiswch iaith a diwyg eich dogfen | Available in alternative formats and languages**
Croesawn ohebu yn Gymraeg a fydd gohebu yn y Gymraeg ddim yn arwain at oedi. Rhowch wybod inni beth yw'ch dewis iaith e.e Cymraeg neu'n ddwyieithog.
We welcome correspondence in Welsh and corresponding with us in Welsh will not lead to a delay. Let us know your language choice if Welsh or bilingual.

hyderus o ran anabledd CYFLOGWR
disability confident EMPLOYER

Bydd modd i ddisgyblion ysgolion Ffydd, ysgolion Cymraeg, ac ysgolion uwchradd sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a rhai disgyblion ysgolion arbennig (heb anghenion diet penodol) sy'n defnyddio cludiant ysgol gasglu pecyn bwyd o ysgol leol yn eu cymuned. Os yw'ch plentyn yn y categori yma, bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi'n fuan i ofyn am anghenion pecyn bwyd eich plentyn, gan gynnwys anghenion dietegol ac alergenau, a pha ysgol yr hoffech chi gasglu'r pecyn bwyd oddi wrthi. Cofiwch roi gwybod i'r ysgol am ofynion dietegol eich plentyn gan y bydd angen i gyflenwyr pecyn bwyd eich plentyn fod yn effro i'r rhain.

**Cinio ysgol**
Mewn ysgolion sydd ddim ar gau, bydd y Gwasanaethau Arlwyo yn darparu gwasanaeth cinio yn ôl yr arfer.

**Clwb Brecwast**
Bydd ysgol eich plentyn yn rhoi gwybod i chi a fydd clwb brecwast yn cael ei gynnal ar y diwrnodau camau gweithredu diwydiannol arfaethedig.

**Cludiant i'r ysgol**
Dyma roi gwybod i rieni a gwarcheidwaid y bydd cludiant ysgol ar gyfer disgyblion cymwys yn parhau yn ôl yr arfer, oni bai bod ysgol wedi penderfynu cau cyn diwrnod y camau gweithredu diwydiannol sydd wedi'i gynllunio.

Os bydd disgyblion yn cael eu cludo i'r ysgol a bod dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn yna'n cael eu heffeithio gan y streic ar y diwrnod hwnnw, bydd angen i ddisgyblion aros yn yr ysgol. Fydd dim trafnidiaeth ar gyfer taith ddychwelyd ychwanegol i ollwng plant yn y mannau casglu arferol yn y bore. Os bydd angen i ddisgyblion ddychwelyd adref, bydd rhieni/gwarcheidwaid yn cael gwybod bod angen casglu'r plentyn/plant o'r ysgol. Mae hyn er mwyn sicrhau diogelwch eich plentyn/plant.

Mae ysgolion yn gweithio'n agos gyda'u cyrff llywodraethu a'r awdurdod lleol i leihau'r aflonyddwch cyn belled ag y bo modd, ac rydyn ni'n gwerthfawrogi eich cefnogaeth yn ystod y cyfnod yma.

Bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â chi yn uniongyrchol ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi ar drefniadau lleol.

Diolch o galon

Gwynor Davies

**Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Addysg a Chynhwysiant**